
# Milfeddyg y Sŵ

Beth am adrodd dyddiau'r wythnos yn y drefn gywir? Efallai yr hoffech chi dynnu lluniau o'r pethau rydych chi'n eu gwneud bob dydd gan ysgrifennu'r diwrnod cywir i fynd gyda phob llun, gan feddwl am y seiniau sydd angen arnoch chi.

Ydych chi erioed wedi ymweld â sŵ? Beth am dynnu neu beintio lluniau o'ch hoff anifeiliaid? Gallech chi hefyd ysgrifennu enwau'r anifeiliaid ar bwys bob llun.



Mae'r milfeddyg yn trin jiráff dydd Llun, fflamingo dydd Mawrth, cameleon dydd Mercher, eliffant dydd Iau a theigr dydd Gwener. Faint o anifeiliaid mae e'n drin?

Mae'r milfeddyg yn sâl dydd Sadwrn. Beth am wneud cerdyn brysiwch wella iddo? Pa neges allech chi ysgrifennu y tu fewn i'r cerdyn? Pa lun fyddai e'n hoffi ar flaen y cerdyn?

Beth am sefydlu meddygfa milfeddyg ar gyfer eich teganau meddal yn eich cartref? Gallwch wirio'u tymheredd, rhwymo'u coesau, eu lapio i'w cadw'n gynnes a gwrando ar guriad eu calonnau? Beth am ysgrifennu eu symptomau a'r driniaeth sydd angen arnynt i lawr?



Mae swydd milfeddyg yn bwysig am ei fod yn gwella anifeiliaid. Siaradwch ag oedolyn am y math o swydd yr hoffech chi ei gwneud ar ôl i chi dyfu'n fawr.

